

ADDYSG ÔL-16

POST 16 EDUCATION



Ein Nod / Our Aim:

“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg ôl-16 sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.

Ni ddylai eich cefndir, daearyddiaeth nac amgylchiadau bennu eich dewis na’ch llwybr i’r dyfodol. Hoffwn weld cyfundrefn sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan feithrin sgiliau y mae galw amdanynt yn yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau llwybr cadarn tuag at ffyniant i bob person ifanc.”

“My vision is to establish a post-16 education system that places the needs of all of our learners at the centre of our provision.

Your background, geography or circumstances should not determine your choice or your future path. I would like to see a system that is flexible, and one that provides the highest quality education and training, fostering skills that are in demand in the local, regional and national economy, in order to ensure a robust pathway towards prosperity for every young person in Gwynedd.”



Cyng. Cemlyn Rees Williams
Aelod Cabinet Addysg / Cabinet Member for Education

Ein Gweledigaeth / Our Vision:

“Ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 yw:

Sicrhau tegwch yn y dewis o gyrsiau a darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i symud ymlaen.


Darparu trosglwyddiad effeithiol i ddarpariaeth addysg ôl-16, gan ddatblygu a chynnal mynediad at ystod eang o lwybrau priodol ar gyfer y dysgwyr unigol ac yn sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn esblygu wrth i ofynion y dysgwyr a'r economi leol newid i'r dyfodol."

“Our vision for post-16 learners is:


Ensure fairness in the choice of courses and providing flexible and sustainable high quality learning experiences that equip them as independent learners with the correct information and skills to progress.

To provide an effective transition into post-16 education provision, and develop and maintain access to a broad range of appropriate pathways for the individual learner and ensuring that post-16 provision evolves as the requirements of the learner and local economy changes in future."

Amcanion:



Objectives:



Cefndir / Background:

- Cyflwynwyd adroddiad gerbron Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Gwynedd yn Ionawr 2018 yn nodi'r bwriad i gynnal asesiad o'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol.
- Ym Mehefin 2018, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo yr egwyddor o ystyried sefyllfa bresennol ôl-16, gan sicrhau na fyddai'r Awdurdod yn colli'r cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth yn Arfon, pe bai achos i wneud hynny, gyda ffigwr o £18 miliwn wedi ei adnabod o Fand B, Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.
- Lluniwyd "Adroddiad Trosolwg Ôl-16" ar sail, tystiolaeth, gwybodaeth ac ymchwil a gasglwyd.
- Cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd, ar 10 Mawrth 2020, yn gofyn am ganiatâd i gychwyn trafodaethau gyda rhan-ddeiliaid mewn perthynas ag addysg ôl-16 yn Arfon.
- A report was submitted to the Gwynedd Education and Economy Scrutiny Committee in January 2018 noting the intention to undertake an assessment of current post-16 provision.
- In June 2018, Gwynedd Council's Cabinet approved the principle of considering the current post-16 situation, ensuring that the Authority would not miss the opportunity to strengthen the provision in Arfon, should there be a case to do so, with a figure of £18 million identified from Band B, 21st Century Schools Programme.
- A "Post-16 Overview Report" has been compiled on the basis of evidence, information, and research gathered.
- A report was submitted to Gwynedd Council's Cabinet, on 10 March 2020, seeking permission to enter into discussions with stakeholders in relation to post-16 education in Arfon.

Diweddariad / Update:

- Ar 10 Mawrth 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gefnogi argymhelliaid i:

“...gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliaid er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn cyd-adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon.”
- Yn sgil cyfyngiadau COVID-19, nid oedd modd bwrw ymlaen gydag amserlen wreiddiol y prosiect ôl-16 ar gyfer cychwyn y broses ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid yn fuan ar ôl y cyfarfod Cabinet (Mawrth 2020).
- Rydym yn awyddus, felly, i'ch hysbysu o'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y prosiect ôl-16 yn sgil COVID-19, gan rannu gwybodaeth am y broses ymgysylltu fydd yn mynd rhagddi yn ystod tymor yr Hydref 2020.

- On 10 March 2020, Gwynedd Council's Cabinet supported a recommendation to:

“... Hold discussions with stakeholders to consider the current provision and highlight key considerations in order to recognise the direction and opportunities to strengthen post-16 education provision in Arfon.”
- Due to COVID-19 restrictions, it was not possible to proceed with the original post-16 project timetable for commencing the stakeholder engagement process shortly after the Cabinet meeting (March 2020).
- We are therefore keen to inform you of the revised timetable for the post-16 project in the wake of COVID-19, sharing information on the engagement process that will be taking place during the Autumn term 2020.

Y Broses Ymgysylltu / The Engagement Process:

- Pwrpas y broses ymgysylltu anffurfiol yw:
 - rhoi cyfle i ran-ddeiliaid fynegi barn ar y drefn bresennol yng nghyd-destun y weledigaeth;
 - gwahodd sylwadau a syniadau gan randdeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â sut orau i gwrdd a'r weledigaeth a'r amcanion sydd wedi eu llunio ar gyfer y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon;
 - adnabod rhai syniadau posib i'w hystyried ymhellach maes o law.
- The purpose of the informal engagement process is to:
 - give stakeholders the opportunity to express their views on the current system in the context of the vision;
 - invite comments and ideas from stakeholders and the public on how best to meet the vision and objectives that have been formulated for the post-16 education system in Arfon;
 - identify some possible ideas for further consideration in due course.

Amserlen Amlinellol / Outline Timetable:

- Dyma amlinelliad o amserlen y broses ymgysylltu anffurfiol y bwriedir ei chynnal dros y misoedd nesaf:
- Here is an outline of the timetable for the informal engagement process planned for the coming months:

	Amserlen Amlinellol
Cyfarfodydd Cyrff Llywodraethol: Cyfarfodydd unigol gyda phob corff llywodraethol uwchradd yn Arfon – Cyflwyno'r weledigaeth a'r amcanion a manylu ar y broses ymgysylltu arfaethedig.	w/c 19 Hydref 2020 (Cyfle i ymateb ymhellach yn ystod cyfnod yr ymgysylltu anffurfiol)
Ymgysylltu anffurfiol: Cyfle i'r holl ran-ddeiliaid a'r cyhoedd gyflwyno sylwadau a syniadau ynglŷn â sut orau i gwrdd â'r weledigaeth a'r amcanion sydd wedi eu llunio ar gyfer y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon.	Tachwedd – Rhagfyr 2020

	Outline Timetable
Governing Body Meetings: Individual meetings with each secondary governing body in Arfon - Present the vision and objectives and detail the proposed engagement process.	w/c 19 October 2020 (Opportunity to respond further during informal engagement period)
Informal engagement: An opportunity for all stakeholders and the public to submit comments and ideas on how best to meet the vision and objectives that have been formulated for the post-16 education system in Arfon.	November – December 2020

Cyfrannu / Contribute:

Y broses:

- Cynhelir y cyfnod ymgysylltu anffurfiol rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2020.
- Bydd y wybodaeth a'r dogfennau cefndirol ar gael ar wefan y Cyngor (copïau caled ar gael ar gais)
- Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, bydd cyfle i ran-ddeiliaid gysylltu gydag unrhyw ymholiadau drwy:
 - e-bostio:
moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio Swyddfa Moderneiddio Addysg.
- Bydd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno sylwadau neu gwblhau holiadur ar-lein (copïau caled ar gael ar gais).

The process:

- The informal engagement period between November and December 2020.
- The information and background documents will be available on the Council's website (hard copies available on request)
- During the engagement period, stakeholders will have the opportunity to contact with any queries by:
- Emailing:
moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru or by calling the Modernising Education Office.
- There will be an opportunity for stakeholders to submit comments or complete an online questionnaire (hard copies available on request).

Y weledigaeth / The Vision:

